



CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

GWYRDDDI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

**CYNLLUN GWEITHREDU HINSAWDD CYMUNEDOL
BRO FFESTINIOG**



› CYNNWYS

Cefndir.....	4
Gweledigaeth y Cynulliad.....	5
Gweithredoedd.....	6
Gwybodaeth Bellach	12



> CEFNDIR

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn wedi ei lunio gan drigolion o Fro Ffestiniog a ddaeth at ei gilydd mewn Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd rhwng Mehefin 2022 a Mawrth 2023.

GwyrddNi, mudiad gweithredu ar newid hinsawdd fu'n trefnu a hwyluso'r Cynulliadau mewn cydweithrediad â Cwmni Bro, ein partner lleol ym Mro Ffestiniog. Arianwyd y gwaith gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Cynhaliwyd rhaglen addysg mewn ysgolion lleol a phedair sesiwn gyda'r aelodau yn y gymuned er mwyn dysgu, rhannu a thrafod cyn cydweithio i ateb y cwestiwn: Sut allwn ni ym Mro Ffestiniog ymateb yn lleol i Newid Hinsawdd?

Mae'r atebion i'w gweld yn y Cynllun Gweithredu hwn. Mae gwahoddiad nawr i unrhyw un o'r ardal sydd â diddordeb i ymuno ar y daith i wireddu'r syniadau hyn.



> GWELEDIGAETH Y CYNULLIAD

Wrth ymateb yn lleol i'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol, cytunodd y Cynulliad y dylai pob gweithred cymunedol ar yr hinsawdd:

BOD YN DEG AC YN GYNHWYSOL

ADEILADU GWYTNWCH CYMUNEDOL

Pobl Bro Ffestiniog yn cydweithio i hybu lles amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd trwy amryw o brosiectau cynaliadwy ar gyfer dyfodol positif i bawb

BOD O FUDD I'R AMGYLCHEDD NATURIOL

BOD YN WYBODUS

> GWEITHREDOEDD

Y Syniad



Manylion ac Effaith

Gan ymateb i'r dyfodol a ddychmygwyd gan ddisgyblion ysgol ac aelodau cynulliad yn yr un modd, mae'r prosiect yma yn ceisio gwella, achub, a chreu safleoedd newydd i gefnogi cynefinoedd naturiol ar draws Bro Ffestiniog er budd natur, bywyd gwyllt a phobl.

Camau Gweithredu Cyntaf

1. Sefydlu Grŵp Cynefin a Chymuned Bro Ffestiniog, i gynnwys lleisiau ffermwyr, gwarchodwyr tir, a chwareli - i rannu ymarferion ac adrodd yn ôl ar brosiectau bioamrywiaeth yr ardal ac edrych ar gysylltiadau rhwng cynefinoedd.
2. Trefnu Cylchdaith i weld beth sy'n digwydd yn barod ym Mro Ffestiniog, prosiectau sy'n datblygu ac yn gwarchod bioamrywiaeth. Gwadd yr holl aelodau cynulliad sydd â diddordeb, plant, ac eraill, gan gynnwys arbenigwyr lleol, er mwyn rhwydweithio gyda'n gilydd, ac edrych ar bosibiliadau rhwydweithio bioamrywiaeth Bro Ffestiniog.
3. Cysylltu gyda gweithgareddau codi sbwriel a chlririo rhywogaethau ymledol Y Dref Werdd i gefnogi dyddiad gweithredu ar safleoedd penodol, a threfnu dyddiau a gweithdai arbrofol er mwyn dysgu am fioamrywiaeth a chynefinoedd o gwmpas ardal Bro Ffestiniog.


> GWEITHREDOEDD

Y Syniad



Manylion ac Effaith

Gan ymateb i'r dyfodol a ddychmygwyd gan ddisgyblion ysgol ac aelodau cynulliad yn yr un modd, mae'r prosiect yma yn edrych i ddeall, cyfathrebu a chynorthwyo: Ynni sy'n berchen i'r Gymuned (rwan, ac i'r dyfodol) -a chymuned pweru i lawr - newid ymddygiad a lleihau galw/cyflenwad.



Gan ymateb i'r dyfodol a ddychmygwyd gan ddisgyblion ysgol ac aelodau cynulliad yn yr un modd, nod y prosiect yma ydi rhannu gwybodaeth, rhannu sgiliau a rhannu a thrwsio pethau. Bydd hyn yn lleihau milltiroedd teithio a masnach gyflym, yn adeiladu cysylltiadau cymunedol, yn annog newidiad ymddygiad ac yn datblygu'r economi gylchol.

Camau Gweithredu Cyntaf

1. Grŵp i ddeall gwaith cyfredol gyda Llechwedd a'r hydro rhoadr cudd
 2. Be' sy'n bodoli'n barod? Creu a rhannu map o ynni adnewyddadwy ar draws Bro Ffestiniog
 3. Trefnu cylchdaith o orsafoedd ynni ar gyfer aelodau o'r gymuned sydd â diddordeb
-
- 1a. Gweithio gyda Emma yn FFIWS i hysbysebu ac ymgyrchu i gasglu nwyddau (cyfraniadau ayyb) gan drigolion Bro Ffestiniog: Beiciau, offer, scriwiau, hoelion.
 - 1b. Casglu enwau a sgiliau ar gyfer Cyfeirlyfr Sgiliau 'Handi' Bro Ffestiniog.
 2. Dod â phawb; unigolion, mentrau, a phrosiectau at ei gilydd i gydweithio a dysgu gyda'n gilydd.
 3. Mynd ar daith: mynd ag offer a gweithdai rhannu sgiliau i ofodau cymunedol er mwyn dangos i bobl pa sgiliau sydd ar gael yn lleol.

> GWEITHREDOEDD

Y Syniad



INSWLEIDDIO
CARTREFI,
ÔL-OSOD
CYMUNEDAU

Manylion ac Effaith

Prosiect ymchwil er mwyn rhannu gwybodaeth ynglyn ac ôl-osod hen dai carreg, dechrau mentrau cydweithredol i gefnogi gwaith adeiladu a deunyddiau gwell, a chefnogi asiantaethau tai er mwyn sicrhau yr ôl-osod gorau i Fro Ffestiniog.



BWYD LLEOL A
TYFU TATWS!

Gan ymateb i'r dyfodol a ddychmygwyd gan ddisgyblion ysgol ac aelodau cynulliad yn yr un modd, mae'r prosiect yma yn anelu i ddatblygu cyfeirlyfr cynnyrch cymunedol ar werth yn lleol, a chefogi tyfu graddfa fechan i bawb.

Bydd hefyd yn gwella diogelwch bwyd gan gadw bwyd a dyfir yn y Fro, yn y Fro. A chefnogi pobl i gael profiad o dyfu eu stwff eu hunain.

Camau Gweithredu Cyntaf

1. Deall be' sy'n mynd ymlaen yn barod.
2. Cynnal sgwrs bwrdd crwn gyda cynrychiolwyr o'r gymuned o bob ardal ym Mro Ffestiniog.
3. Dechrau/cefnogi menter gydweithredol.

Bwyd Lleol

1. Cyfnod o ymchwilio er mwyn mapio, rhwydweithio gyda a rhestu cynhyrchwyr a darparwyr lleol.
2. Trefnu Cylchdaith fferm i unrhyw un sydd â diddordeb i weld dros eu hunain a threfnu 'dyddiau torchi llewys'.
3. Cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o gynnyrch tymhorol.

Tyfu Tatws

1. Gweithio gydag Y Dref Werdd a Maes Y Plas i beilota 50 bocs, gan gynnwys compost, tatws a chanllawiau, i'w danfon at ddrws a gerddi 50 o dai yr ardal.
2. Ailymweld er mwyn helpu, rhannu profiad a rhoi cyngor
3. Ehangu'r prosiect i ariannu mwy o focsys a phobl leol i helpu efo'r gwaith cynnal a chadw.



> GWYBODAETH BELLACH



Cefnogi a Chysylltu

Diolch i chi am ddarllen Cynllun Gweithredu Hinsawdd Cymunedol Bro Ffestiniog. Gobeithio ei fod wedi sbarduno awydd i weithredu! Os hoffech chi ddysgu mwy am y syniadau sydd yn y Cynllun yma, neu eu cefnogi mewn unrhyw ffordd, cysylltwch â Nina heddiw: ffestiniog@gwyreddni.cymru / 07950 414 401. Byddwn yn falch iawn o glywed gennych ac yn croesawu unrhyw gefnogaeth.

Adroddiad Llawn

Os hoffech gael trosolwg mwy manwl o broses gynulliadol GwyreddNi, y mudiad, partneriaid y bum ardal, y rhaglen addysg a llawer mwy ewch i: <https://www.gwyreddni.cymru/yinglyn-a-gwyreddni/>

Cynlluniau Gweithredu

Gallwch weld Cynlluniau Gweithredu holl ardaloedd GwyreddNi yma: <https://www.gwyreddni.cymru/cynlluniau-gweithredu/>

Ar y Gweill

Mae manylion am weithgareddau parhaus, gan gynnwys dolenni i'r holl grwpiau WhatsApp gweithredol, ar gael yn <https://www.gwyreddni.cymru/cymryd-rhan/>

I ymuno a rhestr bostio'r ardal - anfonwch ebost at ffestiniog@gwyreddni.cymru

